

Pethau a ddigwyddodd yn ystod 10 Mlynedd o fodolaeth eich Elusen GIG



Gwella gofal iechyd i bawb yng Ngogledd Cymru

2010/11

Gwariantau £2,756,000

Ffurio un elusen GIG ar gyfer Gogledd Cymru, gan ymgorffori'r tair elusen a ddiddymwyd yn dilyn uno sefydliadau iechyd

2011/12

Gwariantau £3,732,000

Datblygu rhaglen 'Celfyddydau mewn Iechyd' yn Ysbyty Glan Clwyd, gan wella lles cleifion trwy ganiatáu iddynt gymryd rhan uniongyrchol yn y celfyddydau

2012/13

Gwariantau £4,260,000

Adnewyddu uned Offthalmoleg Abergele, gan gynnwys uned llygaid ddydd newydd a triniaethau laser

2013/14

Gwariantau £3,283,000

Mabwysiadu teitl gweithio newydd ar gyfer Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sef "Awyr Las" (Blue Sky)"

2014/15

Gwariantau £2,003,000

Gwaith yn dechrau ar estyniad Uned Alaw, cychwyn ailddatblygiad gwerth £1.2m yng Nghanolfan Trin Canser Ysbyty Gwynedd

MEDI 2010

Nid yw elusennau'r GIG yn gyrff newydd - maen nhw, fel y GIG ei hun, wedi bod o gwmpas ers 1948.

Yn wreiddiol, fe'u gelwid yn "Gronfeydd Elusennol" ac fe'u hail-lansiwyd yn ddiweddarach fel "Awyr Las". Ar hyn o bryd mae'r elusen yn ymgorffori dros 400 o gronfeydd, yn cynrychioli pob ward, gwasanaeth ac adran o fewn BIPBC. Mae logo calon Awyr Las yn seiliedig ar siâp Gogledd Cymru, sy'n symbol o genhadaeth yr elusen i wella gofal iechyd i bawb yn y rhanbarth.



MAI 2014

Lansiwyd ymgyrch #TeamIrfon gan Irfon Williams, Rheolwr Nyrso gyda'r Gwasanaeth CAMHS, a gafodd ddiagnosis o ganser y coluddyn ym mis Ionawr 2014.

Yn drist, bu farw Irfon yn 2017, ond mae ei etifeddiaeth yn parhau. Mae #TmIrfon wedi casglu dros £200k gan ganolbwyntio ar gefnogi lles emosiynol pobl sy'n byw gyda chanser; ariannu wigiau, therapiau cyflenwol, a chymorth iechyd meddwl arbenigol.



2015/16

Gwariantau £4,418,000

Lansiwyd prosiect ymchwil gwerth £68,000 yn ymchwilio i swyddogaeth pibellau gwaed annormal mewn cleifion arthrits gwynegol (rheumatoid athrits)

2016/17

Gwariantau £1,413,000

Prynwyd dodrefn newydd ar gyfer Ysbyty Cymunedol Glannau Dyfrdwy, gan ddarparu lle amlwrpas i ffwrdd o'r ward i helpu cleifion i adsefydlu

2017/18

Gwariantau £2,762,000

Darparu Peiriant Anadlu anymwithiol (non-invasive) "Trilogy" ar gyfer yr Uned Gofal Dwys, Ysbyty Gwynedd

2018/19

Gwariantau £1,838,000

Agor theatr hybrid newydd ar gyfer llawfeddygaeth fasgwlaidd yn Ysbyty Glan Clwyd, gyda chefnogaeth rhodd ewyllysion o £500,000 gan Ymddiriedolaeth Livsey

2019/20

Gwariantau £2,211,000

Cafodd yr achosion dynol cyntaf o COVID-19 eu hadrodd gan swyddogion yn Ninas Wuhan (China) ym mis Rhagfyr 2019; a dilynodd yr achosion cyntaf a gadarnhawyd yn y Deyrnas Unedig ym mis Ionawr

2020/21 Beth sydd o'n blaenau? Ein dyfodol gyda COVID-19

Bydd ymgyrch codi arian "Gwytnwch" Awyr Las yn helpu'r GIG yng Ngogledd Cymru a chymunedau lleol i addasu i fywyd gyda COVID-19

GORFFENAF 2018

Mae'r GIG ac Elusennau'r GIG wedi dathlu eu pen-blwydd yn 70 oed.

Ar 5ed Gorffennaf 2018, ymunodd cefnogwyr ledled Gogledd Cymru â staff y GIG i dathlu'r garreg filltir arbennig hon. Fel rhan o'r ymgyrch #Big7Tea, cynhaliodd Awyr Las ei chystadleuaeth addurno cacennau gyntaf, gan wahodd cydweithwyr y GIG ac aelodau o'r gymuned i greu dyluniadau gwych yn dathlu ac anrhydeddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

MAWRTH 2020

Awyr Las yn lansio ei Hapêl Ymateb COVID-19.

Diolch i gefnogaeth ysgubol gan gymuned Gogledd Cymru, cododd yr apêl dros £400k hyd at 31/10/20. Mae'r rhoddion wedi ariannu ystod o gefnogaeth, o hyfforddiant ac offer i helpu staff i baratoi ar gyfer cael eu hadleoli yn rheng flaen y pandemig, i adnoddau iechyd meddwl ar gyfer cleifion bregus neu ynysig.



Apêl Ymateb COVID-19

Gwariantau £171,813*

Ymrwymadau £289,858*

*Ar 31/10/20

Cawsom gyllid fel y gallem brynu mwy o offer ar gyfer ein tîm datblygu ymarfer. Roeddem yn gallu prynu breichiau fflebotomi i gynorthwyo gyda hyfforddiant 'yn ôl i'r rheng flaen' ar gyfer nyrsys wedi'u hadleoli a staff cartrefi gofal. Mae'r hyfforddiant ychwanegol hwn wedi bod yn bwysicach nag erioed ers mis Mawrth oherwydd COVID-19. Prynwyd braich fflebotomi ychwanegol i hyfforddi nyrsys i gael samplau gwaed, ac mae iPads wedi ein galluogi i ddysgu'r theori o bell, sydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Mae'r pethau ychwanegol hyn wedi gwneud bywyd yn haws i bob un ohonom, gan olygu y gall nyrsys gael eu huwch-sgilio yn gyflym. Rydym yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth ychwanegol hon yn arw ac mae wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i nyrsys mewn cartrefi gofal ac yn ein lleoliadau gofal iechyd cymunedol, sydd wrth gwrs yn golygu ei fod wedi gwneud gwahaniaeth i'n cleifion hefyd. Diolch yn fawr iawn.

Kara Rich, Nyrs Arweiniol Datblygu Ymarfer



**Ystafell Efelychu COVID-19
yr Adran Achosion Brys**

£3,907



**Offer i helpu staff i
baratoi ar gyfer adleoli**

£2,450



**Tabledi electroneg a
dyfeisiau digidol ar gyfer
staff a chleifion**

£20,772



**Cefnogaeth rithiol ar
gyfer poen cronig**

£4,968

Derbyniodd Awyr Las £214,500 gan Elusennau GIG Gyda'i Gilydd, a dros y chwe mis nesaf mae'r elusen yn disgwyl derbyn £717,194 arall trwy rowndiau grant ychwanegol. Mae'r £214,500 gan Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd eisoes wedi cael effaith wirioneddol ar staff y GIG yng Ngogledd Cymru ac ar gleifion yn y rhanbarth sy'n derbyn gofal yn ein hysbytai ac yn eu cartrefi.

Diolch i haelioni'r rhai sy'n cefnogi elusennau GIG Gyda'i Gilydd mae Apêl COVID-19 Awyr Las wedi gwneud gwahaniaeth i staff y GIG drwy ariannu cynlluniau Cefnogi Lles Staff y Gwasanaeth sy'n darparu cymorth seicolegol ar gyfer staff y GIG. Rydym hefyd wedi gallu prynu llawer o eitemau lles ychwanegol ar gyfer staff rheng flaen, gan gynnwys diodydd, nwyddau megis oergelloedd ac ati, dyfeisiau a dodrefn ar gyfer ardaloedd ymneilltuo newydd i staff ac mae staff a gwirfoddolwyr gyda'i gilydd wedi gallu cymryd rhan mewn prosiect celfyddydau rhithiol pwysig hefyd.

Mae gofal cleifion wedi'i drawsnewid mewn rhai achosion diolch i'r gefnogaeth ychwanegol a roddwyd. Ariannodd y rhoddion eitemau bach, ond arwyddocaol, fel monitorau babanod a ddefnyddir i weithredu gwasanaeth monitro diogel i gleifion mewn ysbytai, a pheiriannau pwysedd gwaed i fonitro cleifion gyda methiant ar y galon yn eu cartrefi eu hunain. Hefyd, ariannodd y gefnogaeth raglenni mawr sy'n newid bywydau fel gwasanaeth cymorth profedigaeth y Bwrdd Iechyd, gwasanaeth cefnogi gofalwyr, gwasanaeth cymorth rhithiol i reoli poen cronig a gwasanaeth therapi sgwrsio ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl.

Bu pobl ifanc yn elwa mewn ysbytai, gyda staff rheng flaen yn trefnu bagiau gweithgaredd cleifion i blant yn yr ysbyty ac yn y cartref, a grant bach yn cael ei roi i helpu i ddarparu offer monitro ychwanegol i blant â diabetes. Mae staff rheng flaen y GIG wedi gallu rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned trwy ddarparu bagiau hunanofal a lles. Maent hefyd wedi rhoi hwb yr oedd mawr ei angen i gleifion ar draws llawer o wahanol wasanaethau yn ein hysbytai trwy brynu dyfeisiadau digidol i alluogi ymweliadau rhithiol a difyrru. Diolch i'r cyllid a gafwyd gan Elusennau'r GIG Gyda'i gilydd, mae mwy o bobl wedi gallu chwarae rhan weithredol i wella'r gofal y mae ein cleifion yn ei dderbyn, gyda grantiau'n ariannu treuliau gwirfoddolwyr ac offer ychwanegol i helpu i hyfforddi staff nyrsio mewn cartrefi gofal yn ogystal ag ysbytai.

Mae cyllid a gafwyd gan Elusennau'r GIG Gyda'i Gilydd wedi helpu staff y GIG i ddysgu o'r cyfnod ymateb cychwynnol i COVID-19 a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Mae Elusennau GIG Gyda'i Gilydd wedi ariannu Cymrodoriaeth Addysg Feddygol COVID-19, Ystafell Efelychu COVID-19 ar gyfer un o'n Hadrannau Brys, tri phrosiect arloesi sy'n cael eu harwain gan staff lleol y GIG a rhaglenni cydraddoldeb a chynhwysiant newydd. Mae'r holl gefnogaeth yma yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gall y GIG ei ddarparu.

**ELUSENNAU GIG
GYDA'N GILYDD**



**Cymrodoriaeth
Addysg
Feddygol
COVID-19**

£39,200



**Gwasanaeth
Lles a
Chefnogaeth
Staff**

£15,386

Mae'r rhaglen Therapi Siarad / Talking Therapies, a ddarperir mewn partneriaeth â Mind a Advanced Brighter Futures, yn cynnig ymyrraeth gynnar i bobl sy'n teimlo'n drist, yn bryderus neu gydag iselder. Mae pobl yn hunangyfeirio i'r gwasanaeth, ac o fis Ebrill ymlaen mae'r atgyfeiriadau (referrals) wedi cynyddu 50%. Rhoddir y cymorth gan arbenigwyr therapi sgwrsio ar ffurf therapi grŵp neu therapi un i un, cwnsela a Therapi Ymddygiad Gwybyddol (Cognitive Behavioural Therapy). Mae COVID-19 wedi dwysáu'r angen am y gwasanaeth hwn ac mae ein partneriaid yn gwerthfawrogi'r cynnydd mewn capasiti, sydd wedi gwella amseroedd aros yn sylweddol.

Ruth Robison, Rheolwr Comisiynu Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Mae'r monitorau pwysedd gwaed a gafodd eu hariannu gan yr elusen wedi helpu ein tîm o nyrsys i barhau â'r gwaith hanfodol o fonitro cleifion cardiaidd sy'n hunan-ynysu gartref. Mae'r monitorau hyn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn amhrisiadwy. Diolch i bawb a roddodd gefnogaeth i allu gwireddu hyn.

Andy Bennett, Nyrs Arbenigol Methiant y Galon


Mae Nathan Wyburn, arlunydd o Gymru, wedi creu naw collage o'n haelodau staff wedi'u gwneud o filoedd o luniau o wahanol staff a gwirfoddolwyr y GIG yng Ngogledd Cymru. Bydd y rhain yn cael eu harddangos yn ein hysbytai, a bydd printiau ar gael i staff fel atgof parhaol o ymrwymiad anhygoel staff ein GIG yma yng Ngogledd Cymru, a'r aberth enfawr a wnaeth cymaint o bobl yn ystod y cyfnod ymateb cychwynol i COVID. Roedd yn brosiect hyfryd i staff gymryd rhan ynddo.

Andrea Davies, Cydlynnydd Prosiect Celfyddydau mewn Iechyd a Lles



**Offer cartref i gleifion
â diabetes**

£300



**Mentrau Celfyddydau
mewn Iechyd**

£4,500



**Offer pwysedd gwaed i fonitro
cleifion sy'n hunan-ynysu**

£1,760



**Darparu Therapiau
Sgwrsio**

£20,000


Trosolwg 2010-2020

Gwariantau £28,676,000



Ni ellir gorbwysleisio'r effaith sylweddol a gafodd yr elusen ar brofiad cleifion a staff, na chwaith y pŵer a grëir pan ddaw pobl ynghyd i helpu i newid. Mae'r elusen wedi chwarae rôl bwysig wrth helpu i drawsnewid gwasanaethau cleifion, diolch i godwyr arian ysbrydoledig a chefnogwyr o bob rhan o'r Gogledd, Cymru a thu hwnt. Ymroddiad ac awydd staff ein GIG i wella gofal a thriniaeth i gleifion oedd yn greiddiol i hyn oll, yn ogystal ag angerdd ac ymrwymiad cymunedau Gogledd Cymru. Mae llawer o waith ar ôl i'w wneud i sicrhau fod pob claf yn ein hysbytai a'n cymunedau yn gallu derbyn y gofal gorau posibl, ond dylai pawb sydd wedi rhoi i'r elusen, neu wedi gweithio mewn partneriaeth â hi, a phawb sydd wedi chwarae rhan i wella gofal gyda grantiau Awyr Las fod yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd dros y deng mlynedd diwethaf.

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Barry Jones PC - Llywydd Anrhydeddus Awyr Las



Gwariant yn ôl Thema 2010 - 2020

	Lles a Chyfleusterau Cleifion	£	10,403,000	36%
	Lles a Chyfleusterau Staff	£	6,703,000	23%
	Grantiau ar gyfer Gwariant Cyfalaf GIG	£	10,119,000	35%
	Amrywiol	£	54,000	1%
	Ymchwil	£	1,397,000	5%

Cyfanswm: £28,676,000



**Awyr Las
Blue Sky**

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity

Diolch i bawb sydd wedi gwneud hyn yn bosib!



Awyr Las: Elusen GIG Gogledd Cymru

Rhif Elusen Gofrestredig 1138976

www.awyrlas.org.uk • 01248 384 395 • awyrlas@wales.nhs.uk



/AWYRLASCHARITY